Awduraeth

Dafydd Johnston

Gwahaniaethir rhwng tri dosbarth o gerddi yn y golygiad hwn, sef y 147 o gerddi a dderbynnir yn waith DG (a 4 o waith Gruffudd Gryg yn yr ymryson), 19 o gerddi ansicr eu hawduraeth, a'r cerddi niferus a briodolir i DG mewn rhai llawysgrifau ond y bernir nad ei waith ef ydynt, sef dosbarth a adwaenir fel cerddi'r apocryffa. Rhaid pwysleisio o'r cychwyn nad yw'r ffiniau rhwng y tri dosbarth hyn yn rhai absoliwt o gwbl. Fel y ceir gweld, mae rhesymau dros amau dilysrwydd ambell un o'r cerddi a gynhwyswyd yn y canon, ac ar y llaw arall mae lle i ddadlau o blaid dilysrwydd pob un o'r cerddi ansicr eu hawduraeth ac ambell un o gerddi'r apocryffa hefyd. Ond wrth wneud hynny rhaid dilyn canllawiau mor wrthrychol â phosibl, gan gydnabod y problemau theoretig sydd ynghlwm wrth y cysyniad o awduraeth a dilysrwydd.

Bu tipyn o drafod ar gynnwys y canon yn dilyn cyhoeddi GDG, a dadleuwyd dros ychwanegu ambell gerdd fel y gwelir yn y man. Ond cafwyd y feirniadaeth fwyaf pellgyrhaeddol ar egwyddorion y canon o gerddi dilys gan Helen Fulton yn ddiweddar, a hynny o safbwynt theori awduraeth ac awdurdod a hefyd o safbwynt methodoleg. Dadl sylfaenol Fulton yw mai cysyniad modern a hyrwyddir gan y diwydiant cyhoeddi yw'r canon o weithiau awdur a ystyrir yn fynegiant cyson o bersonoliaeth unigryw.[1] Awgryma y dylid dehongli enwau'r beirdd wrth gerddi yn y llawysgrifau fel 'arwyddion generig' yn bennaf, ac felly mai ffordd o ddisgrifio math arbennig o gerdd serch fyddai 'Dafydd ap Gwilym' i gopïwyr diwedd yr Oesoedd Canol a chyfnod y Dadeni. Ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu nad oedd awduraeth unigol yn ystyrlon yn Nghymru'r Oesoedd Canol.

Mewn gwirionedd mae digon o dystiolaeth bod copïwyr y bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg yn ceisio gwahaniaethu, yn gam neu'n gymwys, rhwng awduron ym

[1] Helen Fulton, 'Awdurdod ac Awduriaeth: Golygu'r Cywyddwyr', yn Iestyn Daniel *et al.* (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 50–76.

maes y cywyddau serch, a hynny er gwaetha'r bri mawr a oedd ar enw DG ei hun. Er enghraifft, yng nghanol grŵp o gerddi sydd wrth enw DG yn Pen 54 priodolodd y copïydd un cywydd i Fadog Benfras (er bod y cywdd wrth enw DG mewn llawysgrifau eraill). Ac yn rhan gyntaf Pen 57 priodolir 'Y ferch lygad ruddell fain' i Lywelyn Goch ap Meurig Hen, a hynny'n dilyn pedwar cywydd wrth enw DG. Gellid dyfynnu nifer o esiamplau tebyg o wahaniaethu rhwng awduron, a hefyd o nodiadau lle mae copïwyr yn bwrw amheuaeth ar awduraeth cerdd a gawsant wrth enw DG.[2] Ac nid peth newydd oedd y gofal hwn wrth briodoli cerddi i awduron chwaith. Roedd awduraeth yn hanfodol i drefniant gofalus y casgliad o gerddi Beirdd y Tywysogion a luniwyd yn Llawysgrif Hendregadredd tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.[3] Dengys y cerddi dadolwch o gyfnod Taliesin ymlaen fod beirdd a chynulleidfaoedd yn synio am yr awdur fel un a oedd yn atebol am ei eiriau, ac mae'r cyhuddiadau o lên-ladrad yn yr ymryson rhwng Dafydd ap Gwilym a Gruffudd Gryg yn rhagdybio'r syniad o berchnogaeth awdur ar gerdd, fel y dadleuodd Morgan Davies yn ddiweddar.[4]

O ran yr ymwybyddiaeth o awduraeth roedd Cymru'n ddigon tebyg i wledydd eraill yn Ewrop, ac mae lle i gredu mai Lloegr oedd yn wahanol i'r rhelyw yn hyn o beth, fel yr awgrymodd Nicolas Jacobs:

> It has been argued that the anonymity of the great bulk of compositions in Middle English is evidence of the lack of a sense of authorship in the period. The situation is, however, anomalous in Western Europe and cannot be explained in terms of general cultural development. The greater portion of *trobador* lyric is attributed to named authors, and the fact that many of these were provided with biographies, however fictitious those may be, suggests that authorship was a matter of some interest among their audience; attributions occur also in the case of their French, Italian, Catalan, and, especially, German and Portugese followers. The same is of course true of the authors of French and German romances; one of the former, Hue de Rotelande, was actually resident in England, while one of the most eminent of the latter, Gottfried von Strassburg, provides in his celebrated critical digression further evidence that the attachment of names to vernacular texts was no mere formality, at least by the beginning of the thirteenth century. The compositions of the poets of the Welsh princes and their successors, active from the beginning of the twelfth century on, are assiduously attributed to their authors in the manuscripts in which they are preserved; the earlier poetry preserved in manuscripts of roughly the same date is similarly attributed, though less reliably and in some cases certainly wrongly. Such attributions, true or false, demonstrate plainly that the concept of vernacular

[2] Gw. ymhellach A. Cynfael Lake, 'Awduraeth Cerddi'r Oesoedd Canol: Rhai Sylwadau', *Dwned* 3 (1997), 63–71.
[3] Gw. dadansoddiad Daniel Huws yn MWM 193–226.
[4] Morgan Thomas Davies, 'The Death of Dafydd ap Gwilym', yn Joseph Falaky Nagy and Leslie Ellen Jones (goln), *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition* (Dublin, 2005), 55–73.

> authorship was taken for granted in medieval Wales as it was on the continent of Europe.[5]

Gellir cymryd, felly, fod perchnogaeth awdur ar gerdd yn gysyniad ystyrlon yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Ond mater arall yw penderfynu awduraeth cerddi unigol, ac mae gan Helen Fulton feirniadaeth bwysig ar fethodoleg llunio canon GDG. Pwysleisia yn ei rhagymadrodd i'w chasgliad o gerddi'r apocrffa nad yw'r un o'r meini praw a ddefnyddir i benderfynu awduraeth yn gwbl wrthrychol, fod pob ymgais i ddiffinio'r canon yn oddrychol (fel y cydnabu Thomas Parry ei hun), a dadleua felly na ellir gwneud mwy na sôn am waith 'ysgol' o feirdd yr oedd DG yn aelod blaenllaw ohoni.[6]

Mae llawer o'r dadleuon ynghylch dilysrwydd cerddi yn dibynnu ar wahaniaethu rhwng barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg a barddoniaeth y bymthegfed ganrif (neu ambell waith yr unfed ganrif ar bymtheg). Os gellir profi bod cywydd yn nodweddiadol o'r bymthegfed ganrif yna mae'n annhebygol mai gwaith DG ydyw. Ond yn ôl Fulton nid oes gennym ganllawiau diogel i wahaniaethu rhwng cynnyrch y ddwy ganrif. Mae'n wir bod rhai o feini praw Parry ar y pwynt hwn yn rhy haearnaidd a hyderus, yn enwedig ynglŷn â'r gynghanedd, a bod angen eu cywreinio a'u cymhwyso'n fwy gofalus. A chan fod tipyn mwy o farddoniaeth y ddwy ganrif wedi'i golygu erbyn hyn mae cyfle i wneud hynny. Rhaid cofio hefyd am y genhedlaeth o feirdd a fu yn eu blodau o gwmpas troad y ganrif, Gruffudd Llwyd, Llywelyn ab y Moel ac eraill, y mae eu cerddi'n arddangos rhai o nodweddion y cywyddau cynnar yn ogystal â pheth o arddull ddatblygedig y bymthegfed ganrif. Rhaid cofio hefyd am y posibilrwydd mai *genre* yn hytrach na chyfnod sy'n gyfrifol am wahaniaethau arddull. Er enghraifft, fe ddichon y byddai bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn dewis arddull symlach nag arfer ar gyfer cywydd ac iddo amcan addysgiadol fel y cywydd byr i'r Drindod (rhif 3). Mae'r un ddadl yn berthnasol i'r cywydd 'Credo' (rhif 153), ac efallai i rai o'r cywyddau serch digrif. Rhaid cydnabod, felly, nad yw'r gwahaniaeth rhwng cerddi o'r ddwy ganrif yn ddigamsyniol bob amser, ond serch hynny credir bod yr ymgais i wahaniaethu yn gallu bod yn arf defnyddiol wrth benderfynu dilysrwydd cerddi, yn enwedig pan fo cerdd wedi'i phriodoli i DG ac i fardd adnabyddus o'r bymthegfed ganrif.

Beirniadaeth fwyaf sylfaenol Helen Fulton ar fethodoleg llunio canon GDG yw'r un ynglŷn â'r ddadl gylch. Y pwynt yn y bôn yw bod cerddi'r canon yn cael eu defnyddio i sefydlu'r meini praw sydd i fod i benderfynu hyd a lled y canon. Rhaid bod Thomas Parry yn ymwybodol o'r perygl hwn i raddau, oherwydd bu'n ofalus i'w osgoi wrth lunio ei faen praw ar iaith trwy dynnu'i dystiolaeth o gywyddau cyfoeswyr DG (GDG[1] lxxx–xc). Canlyniad hynny, wrth gwrs, yw mai maen praw ar gyfnod ac nid ar awduraeth yw hwn. Ac ar bwyntiau eraill mae'r ddadl gylch yn bur amlwg. Er enghraifft, un o'r rhesymau a

[5] 'Kindly Light or Foxfire? The Authorial Text Reconsidered', yn Vincent P. McCarren a Douglas Moffat (goln), *A Guide to Editing Middle English* (Michigan, 1998), 3–14 (7–8).
[6] Helen Fulton (gol.), *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha* (Llandysul, 1996), xxi–xxviii.

nodir gan Parry dros wrthod dau o gywyddau'r apocryffa, 'Dydd da i'r gog serchogfwyn' (rhif 164 yma) ac 'Yr alarch ar ei wiwlyn' (A194) yw sillafu enw'r ferch yn y gerdd, 'peth na wneir mohono yn yr un o gerddi cwbl ddilys DG' (GDG[1] clxxvi; gw. hefyd cxc). Ond pe derbynnid y naill, ni fyddai rheswm dros wrthod y llall ar y cyfrif hwnnw. Mae'n amlwg, felly, fod y canon wedi'i sefydlu cyn penderfynu ar ddilysrwydd y ddau gywydd hynny.

Yn y pen draw ni ellir osgoi dadl gylch yn gyfan gwbl gan fod rhaid wrth ryw fath o graidd o gerddi dilys i fesur cerddi eraill yn eu herbyn. Yr unig beth y gellir ei wneud yw ceisio sicrhau bod nifer o feini praw yn cyd-daro, ac na ddibynnir ar un yn unig. Er bod y ddadl gylch yn berygl yn achos pob maen praw ar ei ben ei hun, siawns nad yw cwlwm ohonynt gyda'i gilydd yn dystiolaeth ddigon cryf i dorri allan o'r cylch seithug. A dyna a welir gan amlaf, fel y pwysleisiodd Thomas Parry ei hun (GDG[1] cv).

A derbyn, felly, na ellir byth ddiffinio cynnwys y canon yn derfynol, rhaid gofyn pa faint o sicrwydd sydd i'r canon a gyflwynir yn y golygiad hwn. Mae rhesymau penodol dros amau dilysrwydd dwy o gerddi'r canon, sef rhifau 64 a 142 (gw. ymhellach y nodiadau rhagarweiniol ar y cerddi), a nodir isod rai eraill y gellid dadlau dros eu symud i adran y cerddi ansicr. Ond cwestiwn mwy tyngedfennol o safbwynt sefydlu canllawiau i farnu awduraeth yw a oes cerddi y gellir eu derbyn yn waith DG y tu hwnt i bob amheuaeth, cerddi a fyddai'n ffurfio craidd y canon.

Noder yn gyntaf dair cerdd sy'n ffurfio dosbarth arbennig am fod copïau llawysgrif ohonynt i'w cael sydd fwy neu lai'n gyfoes â'r bardd ei hun, sef rhifau 1, 9 a 84. A bod yn fanwl gywir nid yw'r dystiolaeth hon mor gryf yn achos rhif 9 gan fod y testun cynnar yn ddienw fel y saif, ond gan fod y darnau o'r tudalen lle gellid disgwyl priodoliad yn annarllenadwy ni ddylid pwyso'n ormodol ar hynny. Ac yn yr achos hwn mae tystiolaeth copïau o'r 16eg ganrif yn gryf iawn o blaid awduraeth DG.

Er nad yw tystiolaeth llawysgrifau'r bymthegfed ganrif agos mor ddibynadwy â rhai'r bedwaredd ganrif ar ddeg, dylid nodi hefyd ddeuddeg cerdd a geir (neu a geid) mewn dau neu ragor o gopïau llawysgrif o'r bymthegfed ganrif, sef rhifau 4 (Pen 48, Pen 57), 14 (Pen 54 x 2), 42 (LlGH a Ll 27), 91 (Pen 54, Pen 57), 94 (LlGH, Pen 54), 101 (LlGH, Pen 57), 109 (LlGH, Pen 57 a Pen 67), 112 (LlGH, Pen 54), 116 (Pen 57, Pen 54), 122 (Pen 57 a Pen 54), 124 (LlGH, Pen 54), 141 (LlGH, Pen 57, Ll 27). Yn achos y rhan fwyaf o'r rhain mae ystyriaethau eraill yn ategu tystiolaeth y llawysgrifau, fel y gwelir isod, ond yn achos rhifau 4, 42, 124 a 141 mae tystiolaeth gref y llawysgrifau yn allweddol gan eu bod braidd yn wahanol i'r cerddi eraill sydd wrth enw DG.

Yn achos yr holl gerddi eraill, lle nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n ddigon cryf i dorri'r ddadl ynddi'i hun, rhaid seilio barn ar gynnwys ac arddull. Er bod llawer o debygrwydd rhwng cerddi'r Cywyddwyr cynnar o ran arddull a thechnegau fel dyfalu, ac er bod dychymyg a dyfeisgarwch hafal i eiddo DG i'w gweld gan rai o'i gyfoeswyr, mae rhai pynciau a dulliau o'u trin sy'n arbennig i'w waith ef. Y canlynol yw'r cerddi mwyaf

unigryw o blith y rhai a briodolir i DG, a'r rhai y gellir bod yn fwyaf hyderus am eu hawduraeth:

Y cerddi llatai (rhifau 44– 48). Fe geir cerddi llatai gan gyfoeswyr DG ac ymhlith yr apocryffa, ond yr hyn sy'n gosod rhai DG ar wahân yw'r sylw manwl a roddir i'r negesydd rhagor y neges, ac yn arbennig y modd y mae'r disgrifiad yn cyfleu arwyddocâd symbolaidd y creadur. Mae'r gwynt yn symbol o'r rhyddid y dyhea'r bardd amdano, yr wylan yn symbol o brydferthwch y ferch, yr iwrch yn symbol o fonedd Dyddgu, nawddsantes y cariadon yw Dwynwen, ac mae'r ehedydd yn moli Duw. Cyferbynner 'Y Penlöyn' (A39) ac 'Y Brithyll' (160), cerddi tebyg iawn i waith DG o ran iaith ac arddull, ond heb yr arwyddocâd ehangach yn perthyn i'r llatai.

Cerddi lle ceir golwg feirniadol ar y bardd trwy gyfrwng rhyw fath o 'alter ego', sef 'Cyngor y Bioden', 'Ei Gysgod', 'Y Gal', 'Merched Llanbadarn', 'Y Bardd a'r Brawd Llwyd' (rhifau 36, 63, 85, 137, 148).

Cerddi lle datblygir delwedd neu gymhariaeth estynedig, a honno'n amlweddog ac yn amwys ei hergyd yn fynych, sef 'Offeren y Llwyn', 'Y Mwdwl Gwair', 'Serch fel Ysgyfarnog', 'Y Mab Maeth', 'Hwsmonaeth Cariad', 'Morfudd fel yr Haul', 'Caer rhag Cenfigen', 'Yr Adarwr', 'Telynores Twyll' (rhifau 39, 66, 75, 77, 109, 111, 122, 131, 135). Amrywiad ar y dechneg honno yw'r cerddi lle ceir tair cymhariaeth gyfochrog â'r un ergyd, sef 'Anwadalrwydd' a 'Caru Merch Fonheddig' (rhifau 76 a 87).

Y cerddi am Ddyddgu (rhifau 86–92 a 120). Mae'r rhain yn gyson iawn eu hagwedd tuag at Ddyddgu, yn gymysgedd o fawl a rhwystredigaeth, ac maent yn dwyn holl nodweddion arddull fwyaf astrus DG. A Dyddgu a enwir fel cariad DG gan Ruffudd Gryg yn yr ymryson (27.47–52).

Y rhan fwyaf o'r cerddi am Forfudd, sef y rhai sy'n cyfleu cymhlethdod emosiynol eu perthynas ac yn ymateb yn chwerw, a hefyd yn fuddugoliaethus, i'w phriodas â'r Bwa Bach (rhifau 92, 93, 94, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 114, 115, 116, 117, 118, 120). Ond nid yw enw Morfudd ynddo'i hun yn warant o ddilysrwydd cerdd (e.e. rhif 157, ac A3, A26, A105, A107, A115, A160, A189). Mae'n bosibl bod beirdd yn canu am ferched eraill o'r un enw, neu os dymunai bardd ffugio cerdd wrth enw DG peth amlwg i'w wneud fyddai gosod enw Morfudd ynddi.

Cerddi am y tymhorau, ac eraill sy'n dangos ymwybyddiaeth ingol o dreigl amser, sef 'Mis Mai', 'Mis Mai a Mis Tachwedd', 'Yr Haf', 'Mawl i'r Haf', Cyngor y Bioden', 'Lladrata Haf', 'Morfudd yn Hen', 'Yr Adfail' (rhifau 32–36, 41, 150, 151).

Troeon trwstan lle mae'r bardd yn gwneud hwyl am ben ei fethiant ei hun fel carwr, sef 'Y Cwt Gwyddau', 'Tri Phorthor Eiddig', 'Trafferth mewn Tafarn', 'Sarhau ei Was' (rhifau 67, 68, 73, 74). Er bod cerddi am helyntion serch i'w cael gan gyfoeswyr DG, nid oedd beirdd eraill mor barod i gyflwyno delwedd negyddol ohonynt eu hunain. Cyferbynner yr

elfen amlwg o froliant yn ‘Yr Halaenwr’ Madog Benfras (OBWV 48), a ‘Chwarae Cnau i’m Llaw’ Iolo Goch (GIG XXVI). Yr unig un o gerddi’r Cywyddwyr cynnar sy’n debyg iawn i ysbryd DG yn hyn o beth yw ‘Y Celffaint’ Ithel Ddu (GGrG 9), a chan mai honno yw unig gerdd Ithel Ddu mae’n arwydd o beryglon cymharu’r corff mawr o gerddi sydd wrth enw DG â’r ychydig sydd wrth enwau ei gyfoeswyr. Tybed a oes rhai o gerddi Ithel Ddu wedi’u cambriodoli i DG?

Cerddi’r rhwystrau, a dyfalu negyddol yn mynegi rhwystredigaeth y bardd, sef ‘Y Rhew’, ‘Y Fiaren’, ‘Y Niwl’, ‘Y Lleuad’, ‘Y Pwll Mawn’, ‘Y Rhugl Groen’, ‘Y Ffenestr’ (rhifau 54, 56, 57, 58, 59, 62, 65). Ond nid DG oedd yr unig fardd a ganai gywyddau o’r math hwn; cymh. ‘Y Garreg Ateb’ (158) ac ‘Y Daran’ (A102). Gellir dadlau bod ansawdd arbennig yn perthyn i ddyfalu DG, o ran y ddelweddaeth thematig, e.e. thema caethiwed am y niwl, a thema’r arallfyd yn yr un cywydd ac am y pwll mawn, ac o ran delweddaeth amwys sy’n cyfleu ymateb deublyg, ffieiddio a rhyfeddu yr un pryd (ac amwysedd rhywiol am y rhugl groen).

Cerddi sy’n cynnwys y thema bod creadigaeth Duw yn cynorthwyo’r cariadon ac yn rhagori ar ddyfeisiadau dynol, fel y gwelir yn y cerddi llatai ac yn ‘Offeren y Llwyn’. Yn hynny o beth mae ‘Y Deildy’ (37) yn nodweddiadol, a hefyd ‘Y Seren’ (50) a’i delweddaeth grefyddol thematig. Adlewyrchiad o ras Duw yw’r cnau yn ‘Chwarae Cnau i’m Llaw’ (95) hefyd, ac mae’n nodweddiadol o DG ei fod yn mynd ati i foli’r cnau trwy eu dyfalu’n delynegol (yn gwbl wahanol i gywydd Iolo Goch ar yr un thema, GIG XXVI). Ond mae deuoliaeth byd natur yn thema gyson yng ngwaith DG, ac mae’r ymwybyddiaeth honno yn ganolog i ‘Y Don ar Afon Dyfi’ (51), cywydd sydd hefyd yn dangos hoffter DG o gyfeirio at ei farddoniaeth ei hun yn ei gerddi.

Y saith cerdd i Ifor Hael (11–17). O’r rhain ‘Basaleg’ (14) sydd â’r dystiolaeth lawysgrifol gryfaf drosti, fel y nodwyd uchod, ac mae’r cyfeirio cyfrwys at ei farddoniaeth ei hun yn arwydd clir o awduraeth DG. Nid yw’r gerdd honno o reidrwydd yn gwarantu dilysrwydd pob un o’r lleill, ond eto nid oes rheswm i amau’r un ohonynt, a gwyddys oddi wrth gyfeiriadau niferus gan feirdd y 15fed ganrif fod DG yn adnabyddus fel bardd Ifor. Heblaw ‘Marwnad Angharad’ (9) sydd â thystiolaeth lawysgrifol gref iawn, yr unig un o’r cerddi mawl y gellir bod yn gwbl hyderus am ei dilysrwydd yw’r farwnad i Lywelyn ap Gwilym (6) oherwydd y cyfeiriadau personol ynddi, ac mae’n debyg y gellir derbyn yr awdl fawl (5) ar yr un sail er na sonnir am berthynas yn honno.

Y cerddi ymryson â Gruffudd Gryg, rhifau 24, 26, 28 a 30 (ac wrth reswm y cerddi cyfatebol gan GG, rhifau 23, 25, 27 a 29, er nad ydynt yn rhan o ganon DG fel y cyfryw).

Dyna 84 o gerddi y gellir eu derbyn yn hyderus ar sail cynnwys ac arddull. Er bod perygl y ddadl gylch yn amlwg yn y modd y mae rhai cerddi’n warant dros eraill, y pwynt allweddol yw bod y rhain (gyda’r ychydig eithriadau a nodwyd) yn bendant yn wahanol i gerddi beirdd eraill y 14eg ganrif. Ac yn sicr mae’r rhestr hon yn cynnwys cerddi mwyaf poblogaidd DG a’r rhai sydd ym marn y beirniaid yn crynhoi hanfod ei athrylith. Ac

ychwanegu'r saith cerdd arall a nodwyd uchod fel rhai y gellir eu derbyn ar bwys tystiolaeth llawysgrifau cynnar yn unig, ceir cyfanswm o 91, sef tua 60% o gerddi'r canon. Cyn rhoi sylw i weddill y canon, mae'n bwysig nodi nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n cyd-daro'n daclus â'r craidd a luniwyd ar sail cynnwys ac arddull. Gellir ailddosbarthu'r cerddi hynny yn ôl cryfder tystiolaeth y llawysgrifau fel a ganlyn:

i) Tystiolaeth gref, sef cerddi a geir mewn o leiaf un llawysgrif cyn 1500, neu mewn dwy ffynhonnell annibynnol o hanner cyntaf yr 16eg ganrif:
1, 4, 5, 6, 9, 11, 14, 15, 16, 24, 26, 28, 30, 34, 36, 41, 42, 47, 48, 50, 51, 54, 57, 58, 59, 62, 65, 66, 67, 68, 74, 75, 77, 84, 88, 89, 91, 92, 93, 94, 95, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 114, 116, 117, 118, 122, 124, 131, 135, 137, 141, 151.

ii) Tystiolaeth ganolig, sef cerddi a geir am y tro cyntaf mewn un ffynhonnell o hanner cyntaf yr 16eg yn unig (a chyfrif amryw lawysgrifau traddodiad y Vetustus fel un ffynhonnell, ac felly hefyd y llawysgrifau sy'n tarddu o Lyfr Wiliam Mathew):
12, 13, 33, 37, 39, 45, 46, 56, 63, 76, 85, 86, 87, 90, 96, 115, 120, 148.

iii) Tystiolaeth gymharol wan, sef cerddi sy'n digwydd am y tro cyntaf mewn llawysgrifau o ail hanner yr 16eg ganrif:
17, 32, 35, 44, 73, 150.

Y dosbarth cyntaf yw'r mwyaf niferus, gyda 67 o gerddi (tua 45% o'r canon), a gellir ystyried y rhain fel y craidd cadarnaf lle mae tystiolaeth y llawysgrifau yn ategu barn ar sail cynnwys ac arddull fel nad oes lle o gwbl i amau eu dilysrwydd.

Nid yw tystiolaeth y llawysgrifau yn rhoi achos i amau dilysrwydd y 18 o gerddi yn yr ail ddosbarth, ond nid yw ychwaith yn ei gadarnhau. Dylid cofio bod ambell gerdd a ystyrir yn annilys i'w chael yn y Vetustus ac yn Llyfr Wiliam Mathew.

Mae'r trydydd dosbarth yn haeddu sylw arbennig gan ei fod yn cynnwys rhai o gerddi enwocaf DG, sef 'Mis Mai', 'Mawl i'r Haf', 'Yr Ehedydd', 'Trafferth mewn Tafarn' a 'Morfudd yn Hen'. Mae'n syndod na cheir copïau llawysgrif ohonynt tan dros ddau gan mlynedd ar ôl oes y bardd. Yn achos 'Trafferth mewn Tafarn' mae'n amlwg bod traddodiad llafar cryf erbyn ail hanner yr 16fed ganrif, ond yn achos y lleill fe ymddengys mai un gynsail yn unig a oroesodd. Cofier fod nifer o gerddi ymhlith yr apocryffa sydd â thystiolaeth lawysgrifol gryfach na'r rhain. Ar sail tebygrwydd thematig i gerddi eraill DG y derbynnir y chwe cherdd hyn. Ond dylid nodi bod y cywydd 'Mawl i'r Haf' yn wahanol i 'Yr Haf' (34) o ran gweledigaeth gan ei fod yn pwysleisio cylch y tymhorau yn fwy optimistaidd o lawer ond heb unrhyw sôn am serch. Gellid dadlau dros wrthod 'Mawl i'r Haf' ar y sail honno, ond go brin fod y syniad o weledigaeth unffurf yn egwyddor ddiogel i lunio canon bardd mor amlochrog â DG.

Wrth droi at y 56 o gerddi sy'n weddill yn y canon, rhaid pwysleisio nad oes rhesymau penodol dros amau eu dilysrwydd, ac eithrio yn achos y ddwy a nodwyd uchod (rhifau 64 a 142). Mater o raddfeydd o sicrwydd yw hyn, ac ni ellir bod mor hyderus am ddilysrwydd y rhain ag yn achos y 91 a drafodwyd eisoes. Ond pe caniateid bod tystiolaeth un llawysgrif o'r 15fed ganrif yn ddigon o sail ynddi'i hun i dderbyn cerdd, yn hytrach na dwy fel y cynigiwyd uchod, yna gellid ychwanegu 25 o gerddi eraill i'r craidd, sef rhifau 8, 19, 22, 38, 49, 52, 60, 71, 80, 81, 82, 83, 104, 121, 123, 126, 128, 132, 133, 136, 140, 143, 144, 145, 147. Rhaid cofio ar y naill law fod enghreifftiau o gambriodoli yn llawysgrifau'r 15fed ganrif (e.e. 'Yr haul deg ar fy neges', A198, yn Pen 54, ac efallai 'Y Brithyll', rhif 160, yn Llyfr Gwyn Hergest). Ond ar y llaw arall yn achos y rhan fwyaf o'r cerddi yn y rhestr hon mae llawysgrifau o'r 16eg ganrif yn ategu annibynnol i dystiolaeth y llawysgrif gynharaf. Gellir ychwanegu'r awdl i Ieuan Llwyd (rhif 7) gan ei bod yn digwydd mewn nifer o gopïau da o'r 16eg ganrif sydd yn amlwg yn tarddu o gynsail ysgrifenedig gynnar. O dderbyn y rhain i gyd mae'r craidd yn cynyddu i 117 o gerddi, sef tua 80% o'r canon, y gellir bod yn weddol hyderus am eu dilysrwydd.

O'r 30 o gerddi sy'n weddill mae tystiolaeth lawysgrifol weddol gryf dros 22 ohonynt, sef rhifau 3, 18, 20, 21, 31, 40, 53, 64, 70, 72, 78, 113, 119, 127, 129, 130, 139 a 142 am eu bod i'w cael yn y Vetustus neu LlWM a llawysgrifau eraill o'r 16eg ganrif, rhif 69 a geid yn y Vetustus ac yn LlWM, a rhifau 10, 61 a 79 a geir mewn copïau annibynnol o'r 16eg ganrif. Mae tystiolaeth fewnol neu amgylchiadol o blaid dilysrwydd y ddwy farwnad i gyd-feirdd (rhifau 20 a 21), fel yr un i Ruffudd Gryg y ceir tystiolaeth gryfach drosti, a hefyd yr awdl ddychan i Rys Meigen (rhif 31), gan fod DG a GG yn cyfeirio yn yr ymryson at y traddodiad am ladd Rhys Meigen. Mae'n debyg bod y cyswllt tybiedig â'r ymryson yn gwarantu dilysrwydd rhif 127. Gellir derbyn 'Marwnad Rhydderch' (rhif 10) oherwydd cyswllt hysbys DG â theulu Glyn Aeron, ond sylwer ei bod wedi'i phriodoli i Iolo Goch yn y copi cynharaf (efallai oherwydd rhai adleisiau yn un o farwnadau IG). Mae'r cyfeiriad at 'Morfudd Llwyd' yn llinell olaf rhif 113 yn brawf digonol o'i dilysrwydd (cymh. llinellau olaf rhifau 105 a 114), ac felly hefyd i raddau llai yr enw Morfudd yn rhif 119 (ond sylwer bod pedair llinell o'r cywydd hwnnw i'w cael hefyd yn rhif 147). Ar y llaw arall, mae lle i amau dilysrwydd rhai o'r cerddi hyn. Gellid amau y cywydd byr i'r Drindod (rhif 3) oherwydd symlder ei arddull, ond efallai fod amcan addysgol i'r gerdd. Arddull syml sydd yn rhif 79 hefyd, heb reswm amlwg am hynny o ran *genre*, a gallai'n hawdd fod yn waith bardd arall. Tynnodd Thomas Parry sylw at ffurfiau ieithyddol amheus yn rhif 139, a rhaid cyfaddef bod y gerdd braidd yn ddi-nod beth bynnag.

Mae rhif 142 yn achos arbennig am fod y rheswm dros amau ei awduraeth braidd yn anuniongyrchol. Mae'n wir bod hon yn wahanol i gerddi eraill DG o ran yr agwedd haerllug tuag at y ferch, eithr prin bod hynny ynddo'i hun yn ddigon o reswm i'w hamau (gellid cymharu rhif 141). Ond diddorol yw nodi ei safle yn LlWM (yn ôl tystiolaeth Pen 49) yn nesaf at gywydd tebyg iawn ei ysbryd ('Y ferch lygad ruddell fain') sy'n waith Llywelyn Goch yn ôl Pen 57. Ac yn rhagflaenu'r ddau yn Pen 49 y mae rhif 156, cywydd a osodwyd yn yr adran awduraeth ansicr am fod testun Pen 54 yn cynnwys cwpled o

‘Farwnad Lleucu Llwyd’ gan Lywelyn Goch. Mae lle i dybio, felly, fod bloc o dri chywydd o waith Llywelyn Goch wedi’u cambriodoli i DG yn LlWM.

Achos arbennig arall yw ‘Y Cloc’ (rhif 64) am fod y ddadl yn erbyn ei dilysrwydd yn ymwneud bron yn llwyr â chefndir hanesyddol. Y broblem yw (fel yr esbonnir yn llawnach yn y nodiadau i’r gerdd) nad oedd clociau o’r math a ddisgrifir yn y gerdd i’w cael ym Mhrydain na Ffrainc cyn y 1370au hyd y gwyddys, sef rhyw ugain mlynedd ar ôl oes dybiedig DG. Rhaid cyfaddef bod perygl dadl gylch yn y fan hon. Digon prin yw’r dystiolaeth am ddyddiadau DG, ac felly ar un olwg dylid trin y gerdd hon fel rhan o’r dystiolaeth honno yn hytrach na rhywbeth yn sefyll y tu allan iddi. Ond mae’r holl gyfeiriadau y gellir eu dyddio yn y cerddi eraill yn perthyn i’r 1340au, felly pe derbynnid hon fe fyddai’n gwbl eithriadol. Er nad yw’n amhosibl bod DG wedi byw tan y 1370au, byddid yn disgwyl rhyw gyfeiriad yn ei gerddi y gellid ei ddyddio i’r cyfnod 1350–70. Haws cymryd mai gwaith bardd diweddarach yw’r gerdd, er gwaethaf tystiolaeth nifer o lawysgrifau da o’r 16eg ganrif o blaid awduraeth DG. Ac er nad yw hon yn annhebyg o ran arddull i gerddi DG, mae un wedd benodol yn ategu’r amheuaeth, sef ystadegau’r gynghanedd, sy’n cynnwys canran anarferol o isel o gynghanedd sain (18%) a chanran anarferol o uchel o gynghanedd groes (54%). Ond, wrth gwrs, nid yw’n annichon y gallai gwybodaeth newydd am hanes clociau weddnewid y dyfarniad ar awduraeth y gerdd, ac felly barnwyd mai doethaf yw parchu tystiolaeth y llawysgrifau a gadael y gerdd yn y canon.

Y Vetustus yw’r unig dystiolaeth dros rifau 43, 134, 138 ac 146, a LlWM yw’r unig dystiolaeth dros rif 125. Enwir Morfudd yn rhif 43, a ‘fab Gwilym’ yn rhif 125. Ond mae lle i amau dilysrwydd rhif 146 oherwydd pwyntiau mydryddol.

Cymharol wan yw tystiolaeth y llawysgrifau dros rifau 2, 55 a 149. Digwydd yr enw Dafydd yng nghwpled olaf rhif 149, ond mae tystiolaeth o’r fath yn ddeublyg gan y gallai fod yn rheswm dros gambriodoli cerdd i DG. Cododd Thomas Parry amheuon ynghylch rhif 55 oherwydd gwendid tystiolaeth y llawysgrifau, ac mae’n wir bod yr ymweliad â thŷ’r ferch liw nos yn thema gyffredin yng ngherddi’r apocryffa, ond mae’r ymwybyddiaeth ysgytwol o dreigl amser ar ddiwedd y cywydd yn rheswm da dros dderbyn priodoliad y llawysgrifau.

I grynhoi’r drafodaeth am awduraeth cerddi’r canon, gellir dosbarthu’r cerddi yn ôl graddfa o sicrwydd fel a ganlyn:

craidd cadarn o 67 o gerddi a dderbynnir ar sail tystiolaeth lawysgrifol gref iawn a hefyd ar sail cynnwys ac arddull

24 o gerddi y gellir bod yn bur hyderus am eu dilysrwydd ar sail cynnwys ac arddull, er nad yw tystiolaeth y llawysgrifau mor gryf o’u plaid

26 o gerddi y mae tystiolaeth llawysgrifau cynnar o’u plaid

30 o gerddi nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n gryf o'u plaid, ac na ellir ychwaith eu derbyn yn bendant ar sail cynnwys ac arddull. O'r rhain, mae rhesymau penodol dros amau awduraeth dwy ohonynt (64 a 142), ac nid oes lle i ddadlau'n gryf dros ddilysrwydd rhifau 2, 3, 79, 139 a 146. Nid yw'r ffin rhwng y 30 hyn a'r 19 yn yr adran awduraeth ansicr yn gadarn na digyfnewid o bell ffordd.

Mae'r canon hwn yn fwy o lawer nag eiddo unrhyw fardd arall o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. O ran cyfanswm cerddi Iolo Goch yw'r bardd agosaf ato gyda 39 yn y golygiad diweddaraf (GIG), sef rhyw chwarter y nifer a dderbynnir yn waith Dafydd ap Gwilym. Digon hawdd yw cynnig rhesymau dilys am y gwahaniaeth, sef bod apêl serch a natur yn ehangach na mawl, a bod datgeiniaid a chopïwyr wedi ymdeimlo ag ansawdd arbennig cerddi DG. Oherwydd y bri a fu ar ei gerddi byddai pobl yn mynd ati i gofnodi popeth o'i waith y gellid cael hyd iddo. Ond ar y llaw arall byddai'r bri hwnnw yn rheswm dros gambriodoli cerddi serch a natur i DG, yn enwedig rhai a gylchredai'n ddienw ar lafar yn wreiddiol. Roedd y duedd honno ar gynnydd yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, fel y gwelir yn amlwg o ystyried y nifer fawr o gerddi a geid wrth enw DG erbyn tua 1600.

.

Lluniodd Thomas Parry saith maen praw ar gyfer penderfynu dilysrwydd y cerddi a briodolir i DG yn y llawysgrifau, fel a ganlyn:

i) *Tystiolaeth y llawysgrifau*
ii) *Priodoli i fwy nag un awdur*
iii) *Arddull ac iaith*
iv) *Crefft y cywydd*
v) *Themâu cyffredinol*
vi) *Dau gywydd ar yr un testun*
vii) *Tystiolaeth fewnol*

Trafodir y rhain isod, gan eu haildrefnu a'u dosrannu'n wahanol i roi wyth maen praw. Fel y nodwyd eisoes, mae dadl gylch yn berygl parhaus, ac anochel i raddau mewn unrhyw ymgais i wahaniaethu rhwng canon ac apocryffa, ond ceisir ei hosgoi trwy seilio'r meini praw ar weithiau'r Cywyddwyr cynnar i gyd yn ogystal ag ar y canon o gerddi DG a ddiffiniwyd uchod, a hefyd trwy gymhwyso cynifer â phosibl o feini praw at bob achos.

i) *Tystiolaeth y llawysgrifau*

Hwn yw'r math mwyaf sylfaenol o dystiolaeth, a dyma fan cychwyn pob trafodaeth ar awduraeth. Oni phriodolir cerdd i DG mewn llawysgrif ni chaiff ei hystyried o gwbl,[7] ac

[7] Gellid ystyried y darn dienw o gywydd serch a geir mewn llaw o'r 14eg ganrif yn Pen 10, gw. Johnston ac Owen, 1999, ond awgrymir yno mai gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen yw'r gerdd.

ar y llaw arall rhaid ystyried pob cerdd a briodolir i DG hyd yn oed mewn un llawysgrif yn unig. Ar un olwg mae priodoliadau llawysgrifau yn fwy gwrthrychol na mathau eraill o dystiolaeth, yn yr ystyr eu bod yn bodoli y tu allan i destun y gerdd, ac y gellir eu cyfrif a'u dyddio'n weddol fanwl fel arfer. Ond nid yw awdurdod y llawysgrifau byth y tu hwnt i gwestiwn. Hyd yn oed yn achos y tair cerdd a briodolir i DG mewn llawysgrifau o'r 14eg ganrif (rhifau 1, 9 a 84) rhaid ystyried eu cynnwys a'u harddull cyn eu derbyn yn waith dilys. Heblaw y tair cerdd hynny, roedd bwlch o ganrif o leiaf rhwng adeg y cyfansoddi a'r llawysgrifau cynharaf, ac mae'n sicr bod rhai cerddi'n cylchredeg yn ddienw yn ystod y cyfnod hwnnw ac wedyn. Yr hyn a gawn yn y llawysgrifau, felly, yw barn datgeiniaid a chopïwyr.

Ar y cyfan mae awdurdod llawysgrif yn dibynnu ar ei hoedran, ac mae tystiolaeth llawysgrifau'r 15fed ganrif yn pwyso'n arbennig o drwm yn y fantol. Er enghraifft, ar sail tystiolaeth Pen 54 derbynnir mai gwaith Madog Benfras yw'r cywydd dychan i Frawd Du, 'Cosbwr y marwol bechawd' (A36), er bod copïau diweddarach yn ei roi i DG. Ond mewn rhai achosion lle ceir testunau o'r un gerdd mewn mwy nag un llawysgrif o'r 15fed ganrif mae eu tystiolaeth yn groes i'w gilydd, a rhaid gwrthod un ohonynt. Er enghraifft, mae'r cywydd i ddanfon yr haul i Forgannwg, 'Yr haul deg ar fy neges' (A198), wedi'i briodoli i DG yn Pen 54, ond i Ieuan ap Gruffudd Gwent yn Pen 57. Mae'n amlwg, felly, fod can mlynedd yn hen ddigon o amser i awduraeth cerdd fynd yn ansicr. Yr unig lawysgrif o'r 15fed ganrif na chafwyd achos i gwestiynu ei hawdurdod o ran awduraeth cerddi DG yw rhan gyntaf Pen 57 (tua 1440), ond dim ond pum cerdd o'i waith a geir yn honno. Yn achos Pen 48, llawysgrif arall o ganol y 15fed ganrif, gellir derbyn bron bob un o'r wyth cywydd a briodolir i DG, ond mae awduraeth y cywydd crefyddol, rhif 153, yn ansicr oherwydd ei briodoli i feirdd eraill ac oherwydd ei arddull syml.

Daeth y duedd i gambriodoli cerddi i DG yn gyffredin iawn yn yr 16fed ganrif yn sgil yr awydd i lunio casgliadau mawr o'i waith. Gwelir bod rhai cerddi ansicr ac amheus eu hawduraeth yn y Vetustus ac yn Llyfr Wiliam Mathew, dau gasgliad sylweddol o draean cyntaf yr 16eg ganrif. Cerddi gan gyfoeswyr DG yw rhai o'r rhain (e.e. 'Rho Duw hael rhadau helynt', GIG XXXII, ac 'Y ferch lygad ruddell fain', GLlGMH 11), ac mae'n debyg felly fod y ddau gasgliad yn tynnu ar stoc o gerddi o'r 14eg ganrif, a bod y sawl a oedd yn gyfrifol am eu trosglwyddo yn abl i wahaniaethu rhwng cerddi o'r 14eg ganrif a rhai o'r 15fed ganrif, er nad rhwng gwaith DG a gwaith ei gyfoeswyr. Yn nes ymlaen yn yr 16eg ganrif gwelir bod nifer o gerddi o'r 15fed ganrif yn dechrau ymddangos wrth enw DG yn y casgliadau mawr, e.e. C 7, H 26, Bl e 1 a llawysgrifau Llywelyn Siôn, ac mae hynny'n awgrymu nad oedd y casglwyr bellach yn gallu gwahaniaethu rhwng cynnyrch y ddwy ganrif.

Er bod y dystiolaeth dros gerdd weithiau yn ymddangos yn gryf am fod nifer fawr o lawysgrifau yn ei phriodoli i DG, gall hyn fod yn gamarweiniol. Prawf o boblogrwydd cerdd yw nifer y copïau, ac nid yw o reidrwydd yn profi dim am ei hawduraeth. Y cwestiwn allweddol yw sawl cynsail annibynnol sydd i'r holl gopïau, ac yn aml iawn fe geir bod modd eu holrhain i gyd i'r un gynsail. Ni fyddai copïwyr yn debyg o weld

rheswm i gwestiynu'r priodoliad i DG (er bod ambell esiampl o sylwadau beirniadol yn y llawysgrifau), ac felly mae tystiolaeth y llawysgrifau yn aml yn llawer llai cryf nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf.

ii) *Priodoli i fwy nag un awdur*

Gwedd benodol ar dystiolaeth y llawysgrifau yw hon. O gofio'r bri mawr a fu ar enw DG ym maes y canu serch, mae'r ffaith bod cerdd yn cael ei phriodoli i unrhyw fardd arall yn arwyddocaol iawn, hyd yn oed os yw pwysau'r dystiolaeth o'i blaid yn wannach nag o blaid DG. A lle bo cerdd yn cael ei phriodoli i fwy nag un bardd arall heblaw DG mae'r ansicrwydd yn awgrymu i'r gerdd gylchredeg am gyfnod yn ddienw, ac os felly rhaid amau'r priodoliad i DG. Nid yw'r maen praw hwn yn derfynol ynddo'i hun (e.e. barnwyd ar sail arddull yn ogystal â phwysau tystiolaeth y llawysgrifau'n gyffredinol mai gwaith DG yw 'Tri Phorthor Eiddig' (68) er bod y cywydd wedi'i briodoli i Fedo Brwynllys yn Ll 6 a llawysgrifau Llywelyn Siôn), ond mae'n arwydd cryf iawn o awduraeth ansicr. Er bod rhif 166 wrth enw DG mewn llawysgrifau sy'n deillio o Lyfr Gwyn Hergest, ac na chrybwyllir enw bardd arall tan chwarter olaf y 18fed ganrif, mae'r awgrym mai gwaith Gruffudd Llwyd ydyw yn ategu amheuon ar sail cynnwys y cywydd.

Gall ymyrraeth destunol mewn copi llawysgrif awgrymu cyswllt â bardd arall hyd yn oed lle nad oes priodoliad penodol i'r perwyl hwnnw. Dyna a welir yn achos y copi o 'Penwisg Merch' (rhif 156) yn Pen 54 lle ceir llinellau crwydr o farwnad Llywelyn Goch i Leucu Llwyd. A diddorol yw nodi safle'r gerdd honno yn Llyfr Wiliam Mathew, nesaf at gerdd arall o waith Llywelyn Goch (dadl sydd hefyd yn berthnasol i 'Bargeinio', rhif 142, fel y gwelwyd uchod).

Hyd yn oed os na phriodolir cerdd i unrhyw fardd arall yn y llawysgrifau, gall y ffaith ei bod yn ddienw mewn rhai fwrw amheuaeth ar gywirdeb y priodoliad i DG mewn eraill. Er enghraifft, mae'r englyn i fam Ifor Hael (167) i'w gael yn ddienw mewn llawysgrifau achyddol, ac felly mae'n debyg mai oherwydd cyswllt hysbys DG ag Ifor Hael y cafodd yr englyn ei briodoli iddo mewn llawysgrifau diweddarach. Ac mae'r ffaith fod 'Y Garreg Ateb' (158) i'w gael yn ddienw yn BM 24 yn tanseilio gwerth y priodoliad i DG yn Ll 6 o'r un cyfnod. Pe bai'r cywydd yn waith DG gellid meddwl y byddai copïydd BM 24 yn gwybod hynny, gan ei fod yn ddigon parod i briodoli cerddi serch eraill iddo.

iii) *Tystiolaeth fewnol*

Mae rhai cerddi'n cynnwys cyfeiriadau penodol sy'n dystiolaeth yn erbyn awduraeth DG. Enwau lleoedd yw'r rhain gan amlaf, yn enwedig rhai a gyflwynir fel cynefin y bardd. Er enghraifft, ni ddisgwylid gweld DG yn sôn am garu merch yn Llandaf (A94) nac yn Is Conwy (A166). Mae'r cyfeiriadau yn 'Y Penlöyn' (A39) at ferch o Feirionnydd a oedd yn wraig i ŵr o'r enw Dafydd, a'r bardd ei hun oddi cartref yn y deheudir, yn ddadl gref dros briodoli'r cywydd i Lywelyn Goch ap Meurig Hen a chymryd ei fod yn anfon y llatai at

Leucu Llwyd, gwraig Dafydd Ddu. Oherwydd yr elfen o fawl i deulu Coed Eutun ym Maelor (cynefin Madog Benfras) gosodwyd 'Yr Eos a'r Frân' (154) ymhlith y cerddi ansicr eu hawduraeth er gwaethaf tystiolaeth gref y llawysgrifau o blaid awduraeth DG, ac felly hefyd y cywydd tebyg am yr eos yng Nghoed Eutun (155), gan fod daearyddiaeth a deialog y cywydd hwnnw'n aneglur.

Gall fod yn anodd iawn dehongli cyfeiriadau o'r fath, a rhaid cofio am yr elfen gref o ddychymyg a ffuglen yng ngweithiau'r Cywyddwyr i gyd. Gwrthododd Thomas Parry y cywydd yn anfon y brithyll yn llatai (rhif 160), gan ddadlau ar sail y cyfeiriad at 'groyw awdur o Fôn' mai gwaith Gruffudd Gryg ydyw. Ond nid yw'n annichon mai at y brithyll ei hun y cyfeirir. Gwrthododd 'Y Sêr' (rhif 161) ar sail y cyfeiriad at 'ffyrdd i Fôn a'r ffordd fau', gan gymryd mai awdur o Fôn oedd y bardd. Ond fel y dadleuodd D. J. Bowen (gw. nodiadau rhif 161), gellid deall y llinell yn wahanol, ac mae cysylltiadau DG â Môn yn ddigon hysbys fodd bynnag. Dosberthir 'Y Sêr' ymhlith y cerddi ansicr eu hawduraeth o hyd, ond am resymau'n ymwneud ag arddull yn hytrach nag unrhyw gyfeiriadau penodol.

Mae 'tystiolaeth fewnol' yn un o feini praw gwannaf Thomas Parry, a phrin ei bod fyth yn ddigon o sail ynddi'i hun i wrthod cerdd. Ond o'i throi ar ei phen gall fod yn ddefnyddiol fel modd i esbonio paham y byddid yn cambriodoli cerddi i DG. Mae'n amlwg bod yr enw Dafydd yn y testun yn ddigon o reswm dros hawlio cerdd fel gwaith DG (e.e. 'Dafydd y sydd yn d'ofyn', A42). Mae'n bosibl mai oherwydd yr enw Dafydd yn y llinell gyntaf y cafodd 'Penwisg Merch' (rhif 156) ei phriodoli i DG, ac mai oherwydd y cyfeiriad at 'wraig Ddafydd' y cafodd 'Y Penlöyn' (A39) ei phriodoli iddo. Ac efallai fod yr un peth yn wir am yr enw Morfudd hefyd. Mae A26 yn esiampl o gywydd yn cynnwys yr enw Morfudd a gambriodolwyd i DG, ac mae'n bosibl bod 'Y Fun o Eithinfynydd' (rhif 157) wedi'i briodoli i DG am fod yr enw Morfudd yn digwydd ynddo ddwywaith (gw. uchod ar y cerddi i Forfudd yn y canon).

iv) *Iaith*

Ceir amryw ffurfiau ieithyddol sy'n nodweddiadol o Gymraeg Canol yng ngherddi cenhedlaeth gyntaf y Cywyddwyr, ac mae presenoldeb rhai o'r rhain mewn cerdd yn arwydd ei bod yn perthyn i oes DG:

a) y sain *y* yn ffurf ail berson bresennol y ferf (e.e. *cery* yn hytrach na *ceri*), yn ffurfiau rhededig arddodiaid fel *ymy, yty* (yn hytrach nag *imi, iti*), ac yn sillaf olaf *gwedy*. Profir y ffurfiau hyn gan yr odl mewn nifer o esiamplau (e.e. *gwedy* yn odli â *fry* yn 6.97). Os profir y sain *–i* gan odl (e.e. *gwedi* yn odli â *cyfodi* yn 153.37), mae lle i amau dilysrwydd y gerdd.

b) y geirynnau berfol *ydd* (yn lle *yr*), *rhy*, *neud*, a *neur*.

c) *-d* yn gytsain derfynol ffurfiau ail berson yr arddodiad, e.e. *wrthyd*, *arnad*.

ch) dwy elfen deusain heb eu cywasgu, e.e. *tëyrn*, *gwëu*, *trahäus*. (Ond *deyrn* 35.49, os cywir y darlleniad.)

d) geiriau fel *bwrw, carw, chwerw,* etc, a *daly, eiry* etc, yn cyfrif yn unsill (er ei bod yn weddol sicr mai yn ddeusill y seinid y rhain ar lafar hyd yn oed yn y 14eg ganrif, fel y dengys yr arfer o sillgolli ar eu hôl). Gall fod yn anodd barnu'r darlleniad gwreiddiol gan fod copïwyr diweddarach yn cyfrif y rhain yn ddeusill ac yn aml yn addasu hyd y llinell o'r herwydd. Ond ni fyddai'r Cywyddwyr cynnar fyth yn trin y lled-lafariad yn sillaf lawn ar gyfer odl (e.e. *bwrw* yn odli â *carw*).

dd) dynodi cyrchfan gan dreiglad meddal yn unig, heb arddodiad (e.e. GIG V.1).

e) geiriau hynafol fel *llywy*, *dwy / dwywes* (= *duw / duwies*), *llerw*, *gwymp*, a ffurfiau berfol fel *gorug*, *deryw*, a *ciglef*. Mae presenoldeb geiriau a ffurfiau o'r fath yn sicr yn arwydd bod cywydd yn perthyn i'r 14eg ganrif, eithr nid yw eu habsenoldeb o reidrwydd yn profi bod cywydd yn ddiweddarach na hynny, gan ei bod yn bosibl bod *genre* neu amcan cerdd yn dylanwadu ar ei hieithwedd.

Nododd Thomas Parry rai pethau eraill sy'n nodweddiadol o Gymraeg Canol, ond ni ellir eu defnyddio'n feini praw gan fod amrywio rhwng ffurfiau hen a diweddar yng ngherddi dilys DG. Ffurf gyson ail berson unigol *bod* yw *wyd*, fel y profir gan odl yn aml iawn, ond fe geir *wyt* yn 63.12. Felly hefyd yn achos terfyniad ail berson unigol yr amherffaith, *-ud* sy'n arferol, ond fe geir *gwyddut* yn 31.88, *aut* yn 35.26 ac *wnaut* yn 121.25. Mae'r hen ffurf ar 3ydd person benywaidd yr arddodiad gydag *–ai* (e.e. *arnai*) i'w chael weithiau gan DG a'i gyfoeswyr, ond fe geir y ffurf ddiweddar *–i* hefyd. Arferir y ddwy ffurf orchmynnol *dywed* a *dywaid* yn ôl gofynion mydryddol.

Ni cheir ond ychydig o nodweddion iaith lafar ansafonol yng ngherddi dilys DG, ac felly mae eu presenoldeb mewn cerdd yn rheswm cryf dros amau ei dilysrwydd. Y canlynol yw'r rhai mwyaf cyffredin:

f) symleiddio deusain mewn terfyniad, e.e. *–e* yn lle *–au* ac *–ai*. (Mater gwahanol yw'r terfyniad haniaethol *–aeth* a geir fel *–eth* yn *llateieth*, 46.8; gw. ymhellach y nodyn ar *lluniaeth* yn IGE^2 380.) Mae'r ffurf lafar *minne* a brofir gan odl yn y cywydd i'r draenllwyn (165.26) yn un rheswm dros gredu nad yw'r cywydd yn waith DG.

ff) sillgolli diangen (e.e. hepgor y rhagenw *fy* a'r arddodiad *yn* o flaen treiglad trwynol). Ar y llaw arall, nodwedd yr un mor amheus yw gorfod darllen sillaf lawn lle disgwylid sillgolli, e.e. *mae yn*.

g) cyfrif llafariad ymwthiol fel sillaf, e.e. *eithyr*, *cefen*, *dadal*.

Afraid dweud, lle nad yw'r ffurf wedi'i sicrhau gan ofynion mydryddol rydym yn ddibynnol ar fympwyon copïwyr ac felly nid yw'r iaith yn fodd i brofi dim am awduraeth y gerdd. Er enghraifft, yn 10.1 ceir y geiryn *neur* mewn un copi yn unig, a *mi* ym mhob un arall. Heb dystiolaeth Gw 25 (nad oedd yn wybyddus i Thomas Parry) ni ellid gwybod bod y ffurf hynafol i'w chael yno.

v) *Arddull*

Dwy nodwedd arbennig ar arddull cywyddau'r 14eg ganrif yw geiriau cyfansawdd a brawddegau sy'n ymestyn dros nifer o linellau. Ymdrinnir â geiriau cyfansawdd fel gwedd ar iaith y beirdd yn GDG[1] lxxxiii, ond gan mai geiriau a lunnid yn bwrpasol ar y pryd a olygir yn hytrach na rhai oedd wedi ymgartrefu yn yr iaith (megis *gwrda* neu *deuddyn*) fe'u hystyrir yma yn wedd ar arddull. Anodd yw cyffredinoli ynghylch mynychder y geiriau cyfansawdd yng ngherddi DG gan eu bod yn fwy cyffredin mewn darnau disgrifiadol nag mewn naratif, ond mewn nifer fawr o gerddi mae'r cyfartaledd o gwmpas un ym mhob pedair llinell, ac fe geir llawer o linellau'n cynnwys dau neu dri gair cyfansawdd yn cydgynganeddu, fel 'Gernfraith, gyflymdaith lamdwyn' (75.6). Nid oes yr un o gerddi DG heb unrhyw eiriau cyfansawdd o gwbl, ac felly mae prinder geiriau cyfansawdd yn rheswm dros amau dilysrwydd cywydd. (Dylid nodi bod hynny'n wir am y cywydd byr i'r Drindod, rhif 3, lle na cheir ond 'pymoes'.)

Mae torymadroddi'n dechneg amlwg iawn yn y cywyddau cynnar (ac fe'i trafodir gan Thomas Parry o dan y pennawd 'Crefft y cywydd' yn GDG[1] xci–iii). Yr hyn sy'n torri ar rediad yr ymadrodd yw'r sangiadau. Rhennir elfennau enw weithiau (e.e. 86.1–4), a rhennir elfennau brawddeg yn aml. Mae estyn brawddeg dros ddau gwpled yn beth cyffredin iawn, ac fe geir digon o enghreifftiau o frawddeg yn ymestyn dros dri chwpled, ac ambell un dros gymaint â chwech (e.e. 86.33–44; 151.7–16). Ni chynhwysir yma y brawddegau llac eu cystrawen ar ffurf nifer o gymalau cyfochrog, fel 156.1–10, nac ychwaith y cyfresi o ddelweddau mewn darnau dyfalu. Fesul llinell yw symudiad y rheini, heb dorymadroddi fel y cyfryw, ac mae darnau tebyg yn ddigon cyffredin yng nghywyddau'r 15fed ganrif hefyd. Nod amgen cywyddau'r 14eg ganrif yw'r modd yr anwybyddir ffiniau'r cwpled wrth gystrawennu. Erbyn y 15fed ganrif y norm oedd cystrawennu fesul cwpled, ac unrhyw sangiadau yn digwydd o fewn y cwpled yn unig. Mae'n wir y ceir rhai esiamplau o arddull gypledol yng nghywyddau'r 14eg ganrif, ond rhannau yn unig o'r cywyddau cyfain yw'r rheini, ochr yn ochr â brawddegau estynedig a delweddu fesul llinell. Enghraifft glir o'r amrywiaeth arddull sy'n nodweddu cywyddau DG yw 'Y Niwl' (57), lle ceir dwy frawddeg estynedig astrus yn gosod y sefyllfa, ac yna gyfres hir o ddyfalu fesul llinell, a darn symlach, cypledol ei symudiad, i gloi'r gerdd (gw. ymhellach Bowen, 1964). Os bydd cywydd yn symud fesul cwpled o'i ddechrau i'w ddiwedd, mae lle cryf i amau ei fod yn ddiweddarach na'r 14eg ganrif, ac felly na all fod yn waith DG. Pan fo cywydd wedi'i briodoli yn y llawysgrifau i DG ac i Ddafydd ab Edmwnd neu Fedo Brwynllys neu un arall o feirdd serch y 15fed ganrif, fel arfer bydd yr arddull gypledol yn ddigon i brofi mai gwaith y bardd diweddaraf ydyw. Hwn yw'r maen praw pwysicaf ar ôl tystiolaeth y llawysgrifau, gan ei fod yn berthnasol i bob cywydd.

vi) *Cynghanedd*

Trafodwyd y maen praw hwn gan Thomas Parry o dan y pennawd 'Crefft y cywydd' (ynghyd â thorymadroddi a drafodir uchod fel agwedd ar arddull). Mae'n ffaith ddiymwad bod arferion cynganeddu wedi newid cryn dipyn yn ystod y ddwy ganrif ar ôl oes DG. Gellir dangos hyn yn ystadegol trwy gyfrif mynychder y gwahanol gynganeddion, ac felly ar un olwg mae hwn yn un o'r meini praw mwyaf gwrthrychol. Ond mae angen gofal wrth ei gymhwyso, gan gofio mai cyfyngedig yw gwerth ystadegau fel tystiolaeth, yn enwedig mewn cerddi byrion lle gall ychydig linellau beri newid mawr yn y cyfartaleddau.

Y gwahaniaeth amlycaf o ran cynganeddiad rhwng cywydd o'r 14eg ganrif ac un o ganol y 15fed ganrif neu'n ddiweddarach yw mynychder y gynghanedd sain, sy'n debyg o fod yn sylweddol uwch yn y cywydd cynnar.[8] Ar hyn y canolbwyntiodd Thomas Parry wrth gymhwyso'r maen praw hwn. Braidd yn fentrus yw ei ddatganiad ar y mater: 'A siarad yn gyffredinol gellir dweud, os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is na 25 y cant, yna nid i'r 14g. y mae'n perthyn.' (GDG[1] xcvii–viii) Yn anffodus, mae rhai cywyddau yng nghanon GDG sy'n groes i'r gosodiad hwn, fel y sylwodd Saunders Lewis yn ei adolygiad ar y gyfrol (Lewis, 1953, 200). Dengys yr ystadegau a baratowyd gan T. D. Crawford gyda chymorth cyfrifiadur (Crawford, 1982) fod 17 o gywyddau GDG â chyfartaledd cynghanedd sain is na 25%, sef yn y golygiad hwn rhifau 60 , 63, 64 (18%), 69, 80, 89 (16%), 96, 97, 98, 134, 136, 139, 141, 145 (14%), 147 (15%), 156 a 157. Ond atebodd Thomas Parry feirniadaeth Crawford (Parry, 1985), gan bwysleisio na fwriadwyd i'w ddatganiad fod yn rheol ddieithriad, ac mai un prawf ymhlith nifer yw'r gynghanedd. O'r 17 cywydd a restrir uchod y mae'r ddau olaf yn yr adran awduraeth ansicr eisoes, ac mae rheswm arall dros amau awduraeth 64 hefyd, fel y nodwyd uchod. Ac mae tri yn rhy fyr i roi ystadegau arwyddocaol (141, 145, 147). Mae'n debyg bod 25% yn ffigwr rhy uchel beth bynnag, ac o'i ostwng i 20% fe achubir wyth cywydd arall. Yr unig un a erys yn broblem wedyn yw 'Dagrau Serch' (89). Nid oes lle i amau awduraeth hwn o safbwynt cynnwys, arddull, na thystiolaeth lawysgrifol, ac mae 50 llinell yn ddigon i roi ystadegau arwyddocaol, ond dylid nodi mai cywydd gorchestol ydyw, a phob llinell yn dechrau â'r llythyren *D*. Fel yr awgrymodd Thomas Parry (1985, 121) fe ddichon mai gwedd ar yr orchest oedd amlhau'r cynganeddion cytseiniol.

Y patrwm nodweddiadol a welir yn y rhan fwyaf o gywyddau DG yw cyfartaledd cynghanedd sain dros 30%, y cynganeddion cytseiniol yn cyfrif am ryw 60%, a'r llusg yn is na 10% (gw. ymhellach yr adran ar y gynghanedd yn y Rhagymadrodd). Os yw cywydd dros ryw 30 llinell o hyd ac yn dangos patrwm sylweddol wahanol i hwnnw, yna mae'n annhebyg o fod yn waith DG. Anaml y mae cyfartaledd y gynghanedd sain yn ddigon isel i fod yn ffactor allweddol o ran awduraeth (ac os ydyw mae ffactorau eraill yn debyg o

[8] Gw. Eurys Rolant, 'Arddull y Cywydd', YB ii (1966), 36–57.

fod yn amlycach beth bynnag), ond gellir nodi A181, A186, A194 ac A195 yn esiamplau o gywyddau lle mae'r cyfartaledd isel (tua 14%) yn awgrymu'n gryf nad gwaith DG ydynt.

Nodwedd gynganeddol arall a ddefnyddiwyd gan Thomas Parry fel maen praw mewn rhai achosion yw presenoldeb cynghanedd groes o gyswllt. Daeth y groes o gyswllt yn gyffredin, ac yn gamp i'w hedmygu, o ganol y 15fed ganrif ymlaen, ac nid oes yr un enghraifft ddigamsyniol cyn cyfnod Gruffudd Llwyd ar ddiwedd y 14eg ganrif. (Mae GIG III.61 yn eithriad, ond mae awduraeth a chyfnod cyfansoddi'r cywydd hwnnw yn amheus, ac felly hefyd DGG LXXVII sy'n cynnwys dwy enghraifft.) Nododd Saunders Lewis (1953, 199–200) nifer o enghreifftiau posibl yn nhestun GDG, ond gellir esbonio pob un fel llythrennau gwreiddgoll. Felly os bydd cywydd yn cynnwys enghraifft o groes o gyswllt na ellir ei hesbonio mewn ffordd arall, yna mae'n annhebyg o fod yn waith DG. Nodwedd anghyffredin yn yr apocryffa yw'r groes o gyswllt fodd bynnag, ac felly cyfyngedig yw ei gwerth fel maen praw i bennu awduraeth. Ond fe geir enghraifft ddigamsyniol yn y cywydd i'r ceiliog du, 'Dwbled yt, o blu y dôn' (162.17), a honno hefyd yn cynnwys cyfatebiaeth caled a meddal. Ac ystyried y cyfartaledd isel o gynghanedd sain yn y cywydd, sef 15%, ynghyd â symlder yr arddull yn gyffredinol, rhaid amau priodoliad y llawysgrifau.

Nid yw arferion cynganeddu DG ei hun yn ddigon cyson nac yn ddigon unigryw i fod yn fodd i brofi awduraeth cerddi. Mae llawer o'i gerddi ef a rhai ei gyfoeswyr yn cynnwys cynganeddion sain gadwynog a sain drosgl, a hefyd goddefiadau fel *n*, *m* ac *r* wreiddgoll a pherfeddgoll, yn ogystal â llinellau pengoll a rhai hollol ddigynghanedd, ac mae presenoldeb y pethau hyn yn awgrymu bod cywydd yn perthyn i'r 14eg ganrif. Ond ni allai absenoldeb yr un o'r pethau hyn fod yn arwyddocaol o ran awduraeth. Yr unig nodwedd afreolaidd a allai fod yn arwyddocaol yw'r cyfartaledd uchel o gynghanedd lusg bengoll yn rhif 164. Er bod digon o enghreifftiau o lusg bengoll yng ngherddi dilys DG, mae 16% yn ddigon anarferol i awgrymu mai gwaith bardd arall yw'r cywydd, ac fe ategir yr amheuaeth gan y ffaith ei fod yn ddienw yn ail ran Pen 57 o ddiwedd y 15fed ganrif.

Mae patrymau cynganeddol gwahanol i'w gweld ym mesurau'r awdl, a rhai sydd hyd yn oed yn fwy ceidwadol a hynafol nag eiddo'r cywyddau. Mae cynganeddiad awdlau DG yn bur gyson ar y cyfan, ond dangosodd dadansoddiad manwl T. D. Crawford (1990) fod yr awdl 'I Iesu Grist' (rhif 152) yn wahanol o ran y cyfartaledd uchel o gynganeddion traws ym mreichiau cyntaf y toddeidiau. Mae'r gwahaniaeth yn ddigon sylweddol i fod yn arwyddocaol yn ystadegol, ac felly mae'n ategu tystiolaeth y llawysgrifau sy'n priodoli'r awdl i Ruffudd Llwyd.

vii) *Themâu cyffredinol*

Nododd Thomas Parry rai themâu y canodd mwy nag un o'r Cywyddwyr cynnar arnynt, megis y chwarae 'cnau i'm llaw', y farf arw, a'r drych. Mae hyn yn gysylltiedig â'r maen praw nesaf, ac mae'n arbennig o berthnasol i'r cerddi llatai.

viii) *Dau gywydd ar yr un testun*

Mae'r maen praw hwn yn rhagdybio na fyddai DG yn cyfansoddi dau gywydd ar yr un testun. (Mater arall yw defnyddio'r un gwrthrych at ddibenion gwahanol, fel y gwneir yn y ddau gywydd am y cyffylog, rhifau 52 a 53.) Digon naturiol fyddai i fardd a ddymunai efelychu DG ganu ar destun un o'i gerddi adnabyddus, a digon hawdd fyddai i gerdd o'r fath gael ei chambriodoli i DG yn y traddodiad llafar neu ysgrifenedig. Enghraifft ddiamheuol a ddengys yr egwyddor ar waith yw cywydd Maredudd ap Rhys i'r gwynt ('Tydi'r gwynt tad eiry ac od', A139). Mae tystiolaeth y llawysgrifau yn gryfach o lawer o blaid Maredudd ap Rhys nag o blaid DG, a'r unig reswm dros ei briodoli i DG o gwbl yw'r ffaith bod ganddo gywydd adnabyddus iawn ar yr un testun (rhif 47). Ac fel y gellid disgwyl o gofio'r gwahaniaethau rhwng y ddau fardd o ran cyfnod a chefndir, mae'r ymdriniaeth â'r testun yn ategu tystiolaeth y llawysgrifau yn ddigon clir, yn arbennig yn y modd y cyflwynir y gwynt fel rhan hanfodol o greadigaeth Duw yn gyffredinol, yn hytrach nag yn fendith i'r cariadon yn unig.

Achos arall lle mae'r egwyddor hon yn berthnasol iawn er nad yw tystiolaeth y llawysgrifau mor gryf o blaid awdur arall yw'r cywydd i'r niwl (A123) sy'n debyg o fod yn waith Siôn ap Hywel ac yn efelychiad o rif 57. Mae gwahaniaethau clir rhwng y ddau gywydd o ran iaith ac arddull, fel y dangosodd Thomas Parry (GDG[1] c–ci). Ac achos lle gweithredir yr egwyddor yn hollol groes i dystiolaeth y llawysgrifau yw 'Y Sêr' (161) sydd ar yr un testun ag 'Y Seren' (50), er nad efallai'n efelychiad ohono fel y cyfryw. Mae'r cywydd ymddiddan â phioden (A68) yn amlwg yn efelychiad o 'Cyngor y Bioden' (36). Ond nid yw bob amser mor hawdd penderfynu pa gerdd a ddaeth gyntaf a pha un sy'n efelychiad. O'r ddwy wawrgan a briodolir i DG derbynnir rhif 69 gan fod tystiolaeth y llawysgrifau rywfaint yn gryfach a'r arddull dipyn yn fwy cymhleth nag A134, ond nid yw'r gwahaniaeth rhyngddynt yn gwbl eglur. Cofier, fodd bynnag, mai thema ryngwladol oedd hon, ac nad yw'r naill yn debyg o fod yn efelychiad o'r llall yn benodol.

Er bod Thomas Parry yn ymwybodol iawn o rym y maen prawf hwn, nis gweithredodd ym mhob achos lle y gallai fod yn berthnasol. Fe geir dau gywydd i'r ceiliog bronfraith yn GDG (rhifau 28 a 123 = 49 a 159 yn y golygiad hwn), ac er bod tystiolaeth y llawysgrifau'n ddigon cryf o blaid yr ail penderfynwyd ar sail arddull ac ymdriniaeth â'r testun ei fod yn debycach o fod yn waith bardd arall. Mae thema'r ymweliad â thŷ'r ferch liw nos yn destun arall a fu'n boblogaidd am ganrif a mwy ar ôl amser DG, a gellir gweld rhai o'r cerddi a briodolir iddo yn efelychiadau o 'Tri Phorthor Eiddig' (68) yn enwedig. Digon hawdd yw gwahaniaethu rhwng gwaith DG ac eiddo ei efelychwyr ar y thema hon gan amlaf, ond mae'n bosibl y dylid ystyried 'Caru yn y Gaeaf' (55) yn y categori hwn gan nad yw tystiolaeth y llawysgrifau'n arbennig o gryf o'i blaid, er nad oes achos i amau'r awduraeth ar sail arddull na gweledigaeth, fel y nodwyd uchod.

Er mai saeth o feini praw a restrwyd gan Thomas Parry, sonia hefyd am un arall, mwy annelwig, a ddefnyddiwyd ganddo weithiau:

> Y mae'r meini praw y buwyd yn eu trafod, o'u cymhwyso'n weddol ofalus, yn torri'r ddadl fel rheol, ond weithiau rhaid defnyddio maen praw arall na ellir ei ddiffinio, a hwnnw yw math o chwaeth lenyddol. Er mor amhersonol yw crefft y beirdd, ac er bod cymaint ohoni wrth reol, gellir synhwyro rhyw naws arbennig pan fo gwir awenydd fel DG wrth ei waith. Bu raid dibynnu ar y synhwyro hwnnw ychydig weithiau, ac nid pawb efallai a gytuna â'r ddedfryd. (GDG[1] clxxi)

Y perygl amlwg gyda maen praw sy'n seiliedig ar chwaeth yw ei fod yn gwbl oddrychol. Ond mae modd diffinio yr hyn a olygir i ryw raddau, ac ar un olwg ymgais i wneud hynny yw'r rhestr uchod o fathau o gerddi sy'n ffurfio craidd y canon. Ac yn fwy cyffredinol na hynny, gellir dweud bod cymhlethdod o ran arddull a gweledigaeth yn un o nodau amgen awen DG, a bod strwythur pwrpasol, ac yn enwedig diweddglo gydag ergyd benodol yn un arall. Er mor anodd yw mesur y naill beth a'r llall, maent yn sicr yn ganllawiau defnyddiol er mwyn gwahaniaethu rhwng gwaith DG a gwaith beirdd eraill. Er enghraifft, o'r ddau gywydd i'r ceiliog bronfraith mae'r un ansicr ei awduraeth yn symlach ym mhob ffordd na'r un a dderbynnir yn waith DG, ac mae'r darlun o'r aderyn yn bodoli mewn gwagle amhersonol. Mae lle i gredu bod y cywydd i'r frân (163) yn waith un arall o'r Cywyddwyr cynnar oherwydd y sangiadau gwan a'r diweddglo swta. Ac felly hefyd rhai o'r cerddi serch a briodolir i DG sy'n gogor-droi mewn hunan-dosturi yn ddi-nod ac yn ddi-ergyd (e.e. A24 ac A44).

©Dafydd Johnston 2007